**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 08-00(p.3)**

**Dyddiad: 12 Ebrill 2000**

**Lleoliad : Ystafell Bwyllgora x, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Teitl: Sefydlu Pwyllgor Monitro Amcan 2 yn Nwyrain Cymru**

**Pwrpas**

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r trefniadau arfaethedig i sefydlu Pwyllgor Monitro Amcan 3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r trefniadau a'r bwriad i ofyn i'r sawl a enwebwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gymryd rhan wrth ddewis aelodau yn derfynol.

**Cefndir**

1. Y Pwyllgorau Monitro yw'r prif fecanwaith sicrhau fod partneriaid yn cyfrannu i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ac mae hyn yn anghenraid allweddol yn Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd. Rôl y Pwyllgor Monitro fydd penderfynu ar y trefniadau manwl i'w rhoi yn eu lle i lansio'r rhaglen newydd, goruchwylio paratoi'r ddogfen i gydfynd â'r Rhaglen a rheoli gweithrediad strategol y Rhaglen.
2. Bydd y trefniadau yn ymwneud â sefydlu Pwyllgor Monitro Amcan 3 yn dilyn yn fras y rhai hynny a osodwyd yn eu lle ar gyfer darpar Bwyllgor Monitro Amcan 1. Roedd y trefniadau hynny yn destun trafodaeth a chymeradwyaeth ddiweddarach gan y Pwyllgor.

**Aelodaeth**

1. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor, sefydlir Pwyllgor Monitro Amcan 3 yn ôl y model "dwy ran o dair". Ar 23 Mawrth, ysgrifennodd y Prif Ysgrifennydd at ystod o fudiadau i wahodd enwebiadau am aelodaeth o'r Pwyllgor Monitro. Rhestrir y mudiadau hyn yn Atodiad 1.
2. Er mwyn cyflawni cydbwysedd ar sail rhyw ymysg yr aelodaeth, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi mai'r awgrym, yn unol â Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, yw gwahodd 3 enwebiad o bob corff – un aelod a dau ddirprwy. Mae hefyd yn fwriad cyflawni craidd cyffredin o aelodau ymysg y Pwyllgorau Amcanion 2 a 3 i gymryd ystyriaeth o'r gorgyffwrdd daearyddol rhwng ardaloedd y rhaglenni. Penodir Pwyllgor Amcan 2 yn ddiweddarach eleni.

**Y Camau Nesaf**

1. Disgwylir derbyn enwebiadau erbyn dechrau Ebrill. Cyflwynir yr enwebiadau i'r sawl a enwebwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i wneud y dewis terfynol. Disgwylir i'r Pwyllgor Monitro gyfarfod am y tro cyntaf o ganol i ddiwedd Mai.

**ATODIAD A**

**PWYLLGOR MONITRO AMCAN 3**

**AELODAETH BOSIBL**

Cadeirydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Aelodau:

**Llywodraeth (6)**

(1) Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(2) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(1) Awdurdod Datblygu Cymru

(1) Addysg Uwch

(1) Addysg Bellach/ Cynghorau Hyfforddi a Menter

**Partneriaid Cymdeithasol (6)**

(1) Corff Hyfforddi Cenedlaethol (Cymru)

(1) CBI (Cymru)

(1) FSB

(1) Siambr Cymru

(2) TUC Cymru

**Cyrff Gwirfoddol a Chyrff Cydraddoldeb (6)**

(2) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

(1) Chwarae Teg

(1) Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

(1) Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru

(1) Comisiwn Hawliau'r Anabl/ Anabledd Cymru